# Angioplasti a gosod stent ar gyfer trin clefyd rhydwelïol ymylol sy'n achosi problemau cael codiad anhydrin

Chwefror 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes tystiolaeth ddigonol er mwyn bod yn sicr ynglŷn â pha mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Am y rheswm hwn, dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich gweithiwr iechyd proffesiynol gynnig y driniaeth hon i chi. Cesglir manylion am eich triniaeth.

## Y cyflwr

Ceir nifer o achosion ar gyfer problemau cael codiad (anallu i gael codiad a'i gynnal). Un achos yw braster sydd wedi cronni yn y rhydweli yn y pelfis. Mae hyn yn culhau neu'n creu rhwystr yn y rhydweli, sy'n lleihau llif y gwaed i'r pidyn.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio angioplasti a gosod stent yn y rhydweli yr effeithwyd arni fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Caiff y driniaeth ei chynnal fel arfer gydag anesthetig cyffredinol. Rhoddir tiwb cul, hyblyg a elwir yn gathetr i mewn i rydweli yn y werddyr, a caiff ei lywio i'r rhydweli yr effeithiwyd arni. Yna caiff balŵn ei lenwi yn y safle lle mae'r rhydweli wedi culhau er mwyn ei llydanu. Weithiau caiff tiwb rhwyll gwifren a elwir yn stent ei osod ac mae'n aros yn ei le i ddal y rhydweli ar agor.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oedd digon o dystiolaeth i fod yn sicr ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn

gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Roedd yr 2 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 50 o gleifion.

Dangosodd yr astudiaethau bod y driniaeth i lydanu'r rhydweli yr effeithwyd arni yn llwyddiannus, gyda rhai cleifion yn nodi lleihad yn y symptomau o gael problemau cael codiad yn y 6 mis dilynol. Roedd tystiolaeth bod y culhau yn dychwelyd mewn rhai pobl. Nid yw'n hysbys pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio yn yr hirdymor.

Roedd problem yn ystod y driniaeth ar gyfer 1 claf, pan achosodd angioplasti i lif y gwaed drwy'r rhydweli leihau. Cywirwyd hyn yn llwyddiannus erbyn diwedd y driniaeth. Yn achos rhai cleifion gosodwyd y stent yn anghywir yn y rhydweli anghywir, ond ni achosodd hyn unrhyw broblemau.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1838-6